# Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

## MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Dirprwy Bennaeth |
| **Gradd:** | Pwyntiau Arwain L19 - L23 |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Addysg |
| **Adran:** | Ysgolion |
| **Lleoliad:** | Ysgol Gyfun Tredegar |
| **Yn atebol i'r:** | Pennaeth |

## CYFLWYNIAD

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ategu'r safonau, y gwerthoedd a'r gosodiadau a nodir yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth 2018. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cydymffurfio â, yn arddangos ac yn hyrwyddo'r gwerthoedd a'r gosodiadau cyffredinol a ddiffinnir o fewn y Safonau Proffesiynol sef:

1) Hawl broffesiynol
2) Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
3) Hawliau dysgwyr
4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
5) Y dysgwr proffesiynol
6) Rôl y system

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ymgymryd â chyfrifoldebau proffesiynol Dirprwy Bennaeth fel y nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

## PWRPAS Y SWYDD

O dan gyfarwyddyd y Pennaeth, gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, mewn partneriaeth â holl randdeiliaid yr ysgol, a darparu'r arweinyddiaeth broffesiynol sydd ei hangen i alluogi pob aelod o staff i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial. Dylid cyflawni hyn yn unol â pholisïau'r corff llywodraethu, a'r blaenoriaethau a nodir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

Dirprwyo ar ran y Pennaeth yn ôl yr angen.

## MEYSYDD ALLWEDDOL

**Addysgeg**

| | |
|---|---|
| 1. | Bod yn atebol am gefnogi addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben i ddysgwyr a chyflawni'r gorau iddyn nhw o ran llesiant, safonau a chynnydd. |
| 2. | Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau, mewn cydweithrediad â holl randdeiliaid yr ysgol, i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth gyffredin yr ysgol a chyflawni gwelliant parhaus yn yr ysgol, er mwyn cyflawni'r pedwar diben dysgu, gan ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol. |
| 3. | Ysgogi a gweithio gydag eraill i greu a chynnal ethos ysgol ac amgylchedd dysgu sy'n darparu ar gyfer dysgu effeithiol. |
| 4. | Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yn gyson trwy fireinio a datblygu addysgu yn raddol a dylanwadu ar ddysgwyr. |
| 5. | Sicrhau y trefnir ac y cyflawnir y cwricwlwm ac y gweithredir ystod o ddulliau addysgeg o fewn yr ysgol, i gefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel a darparu’r cwricwlwm yng Nghymru. |
| 6. | Sicrhau ffocws cyson a pharhaus ar draws yr ysgol ar lesiant, profiad a chyflawniad pob dysgwr, gan sefydlu diwylliant sy'n gwerthfawrogi barn dysgwyr wrth lywio pob cam dysgu a’u profiad yn yr ysgol. |
| 7. | Datblygu polisïau ac arferion, mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid perthnasol, sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel y bo'n briodol. |
| 8. | Galluogi’r gwaith o ddatblygu'r pedwar diben ar gyfer dysgu drwy greu strwythurau a systemau sy'n cefnogi cynllunio a phwysleisio disgyblaethau gwahanol feysydd dysgu mewn cyd-destun, er mwyn sicrhau addysgu a dysgu hynod effeithiol. |
| 9. | Datblygu a gweithredu systemau effeithiol i fonitro a gwerthuso effaith profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr i sicrhau gwelliant parhaus. |
| 10. | Dangos atebolrwydd am lesiant a deilliannau dysgwyr trwy weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod llesiant a chyflawniadau pob dysgwr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn amlwg ledled yr ysgol. |
| 11. | Datblygu strategaethau, polisïau a systemau cynhwysol, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol, sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad llawn at gyfleoedd i gyflawni a sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu diwallu. |
| 12. | Hyrwyddo a sicrhau tegwch mewn llwybrau dysgu academaidd, galwedigaethol a phrofiadol. |
| 13. | Datblygu a mynegi cyfrif cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol, i amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, gan sicrhau bod hyn yn ymgorffori lles a chynnydd dysgwyr. |
| 14. | Rheoli cyfathrebu a gweithredu argymhellion sy'n deillio o adroddiadau'n effeithiol, gan gynnwys canlyniadau hunanwerthusiad yr ysgol ac arolygu allanol gan Estyn, er mwyn ysgogi a chynnal gwelliant yn yr ysgol. |
| 15. | Cydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol i adeiladu hinsawdd ysgol a diwylliant dysgu sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. |

** Cyfrannu, fel y bo'n briodol, at yr addysgu yn yr ysgol.*

**Cydweithredu**

| |
|---|
| 16. Sefydlu hinsawdd o gyd-gefnogaeth a chydweithio effeithiol o fewn a'r tu allan i furiau'r ysgol i ddatblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol. |
| 17. Gweithio gyda'r Pennaeth i sefydlu diwylliant dysgu cydweithredol o fewn yr ysgol ac ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau addysgol eraill i adeiladu cymunedau dysgu effeithiol. |
| 18. Hyrwyddo a hwyluso cydweithio effeithiol â chyflogwyr, busnes, llywodraeth a gweithwyr addysgol proffesiynol eraill i annog dulliau gweithredu arloesol a chefnogaeth, a gwella ymarfer y sefydliad dysgu o ddydd i ddydd. |
| 19. Sefydlu ac adeiladu partneriaethau yn yr ysgol ac ar draws ysgolion i rannu arfer gorau a chefnogi gwelliant yn yr ysgol er budd pawb drwy gynnig cefnogaeth hyblyg o ansawdd uchel i ddatblygu ymarfer proffesiynol. |
| 20. Cefnogi'r Pennaeth i weithio gyda'r corff llywodraethu, fel ei fod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau'n cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol a gwella'r ysgol yn barhaus. |
| 21. Croesawu llywodraethu cryf a gweithio gyda'r Pennaeth i gefnogi'r corff llywodraethu'n weithredol i ddeall ei rôl a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. |
| 22. Sefydlu perthnasoedd effeithiol ac agored gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol ehangach i ennyn eu diddordeb gweithredol o ran lles, profiad a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned. |
| 23. Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol, i ddarparu ar gyfer lles dysgwyr a'u teuluoedd. |
| 24. Datblygu ymrwymiad ar draws yr ysgol i welliant parhaus a datblygu cynaliadwy drwy hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol i'r holl staff, nodi meysydd pryder yn gywir, a chymryd camau priodol i gefnogi a sicrhau perfformiad gwell. |

**Dysgu Proffesiynol**

| |
|---|
| 25. Creu amgylchedd lle mae dysgu proffesiynol yn cael ei werthfawrogi, yn cael effaith ar addysgeg ac yn cefnogi twf proffesiynol ar draws y gymuned ddysgu o fewn a'r tu allan i'r ysgol. |
| 26. Sicrhau dysgu proffesiynol parhaus a ffocws i'r holl staff, gan gynnwys ei hun, gan fframio twf proffesiynol o fewn ymarfer addysgeg, profiadau dysgwyr a deilliannau. |
| 27. Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel drwy ddatblygu a meithrin potensial arwain mewn eraill, a chyfrannu at gyfleoedd sydd ar gael, i feithrin capasiti arwain yr ysgol. |
| 28. Sefydlu rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol i alluogi'r ysgol i chwarae rhan weithredol yn y gymuned addysg ehangach gan gyfrannu at hyfforddi athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr a datblygu ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer. |

**Arloesedd**

| |
|---|
| 29. Cydlynu arloesedd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr ysgol yn cofleidio ac yn elwa o ddulliau arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru. |
| 30. Sefydlu rhaglen hirdymor o ddulliau arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n anelu at ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu yn effeithiol i wella lles a deilliannau. |
| 31. Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle mae arbenigedd, profiad ac ymarfer addysgeg yn cael eu datblygu a'u rhannu'n barhaus o fewn ac ar draws ysgolion. |

| |
|---|
| 32. Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant lle defnyddir tystiolaeth sy'n deillio o arfer arloesol i werthuso effaith newidiadau, o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt. |

**Arweinyddiaeth**

| |
|---|
| 33. Gweithio gyda chymuned yr ysgol i ddod â chydlyniad, eglurder ac ymrwymiad ar y cyd i wireddu'r weledigaeth addysgegol er budd dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. |
| 34. Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned yn gyffredinol. |
| 35. Sicrhau, gyda chefnogaeth a mewnbwn y Pennaeth a'r corff llywodraethu, fod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl bolisïau mewnol, lleol a chenedlaethol. |
| 36. Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle gall eraill dyfu'n broffesiynol. |
| 37. Datblygu a meithrin potensial arwain mewn eraill ar bob lefel i feithrin capasiti arwain yr ysgol ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol. |
| 38. Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol trwy arweinyddiaeth ddosbarthedig, gan annog ymarfer myfyriol. |
| 39. Adeiladu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth broffesiynol, ymchwil ac arbenigedd ymarferol sy'n galluogi'r ysgol ac ysgolion eraill i elwa drwy gydweithio. |

**Rheoli'r ysgol**

| |
|---|
| 40. Gweithio gyda'r Pennaeth a'r rhanddeiliaid perthnasol i lunio a gweithredu cynlluniau gwella clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth a pholisïau ar gyfer datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 41. Gyda chefnogaeth y Pennaeth a'r corff llywodraethu, rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 42. Gwneud defnydd effeithiol o'r gefnogaeth a'r her a ddarperir gan yr awdurdod lleol, consortiwm rhanbarthol a chyrff perthnasol eraill. |
| 43. Cefnogi'r Pennaeth a'r corff llywodraethu i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon i gyflawni blaenoriaethau a nodau addysg yr ysgol. |
| 44. Monitro, gwerthuso ac adolygu, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth a'r corff llywodraethu, ystod, ansawdd a defnydd o’r holl adnoddau sydd ar gael i wella ansawdd addysg i bob dysgwr a sicrhau gwerth am arian. |
| 45. Gweithio gyda'r Pennaeth a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau amgylchedd diogel, heddychlon a threfnus i’r holl ddysgwyr a staff a sicrhau safonau ymddygiad a phresenoldeb uchel, gan arwain at amodau llwyddiannus ar gyfer dysgu. |

## MANYLEB PERSON

**Rh = Meini prawf y rhestr fer**

**Sylwer, efallai y bydd meini prawf y rhestr fer hefyd yn cael eu profi yn ystod y cam asesu**

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMHWYSTER | Statws athro cymwysedig (Rh)<br><br>Gradd (Rh)<br><br>Cofrestriad CGA cyfredol | Cymwysterau pellach a/neu astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r sector uwchradd. (Rh) |
| GWYBODAETH a PHROFIAD | Profiad diweddar sylweddol fel uwch arweinydd mewn swydd Pennaeth Cynorthwyol neu Ddirprwy Bennaeth mewn Cyfnod / Ysgol Uwchradd (Rh)<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r agenda Genedlaethol gyfredol, newidiadau deddfwriaethol a'u harwyddocâd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn ysgol (Rh)<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad rhagorol o arfer gorau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc (Rh)<br><br>Cyfraniad effeithiol ac amlwg at gynllun datblygu ysgol (CDY) hynod effeithiol a ddatblygwyd yng ngoleuni gwerthusiad cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Rh)<br><br>Profiad amlwg o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad i wella cyflawniad pob grŵp o ddysgwyr a nodi meysydd allweddol ar gyfer datblygu. (Rh)<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r hyn sy'n gwneud addysgu, dysgu, lles ac arweinyddiaeth eithriadol i godi safonau i bawb (Rh)<br><br>Gwybodaeth fanwl a phrofiad o strategaethau a gweithdrefnau effeithiol sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad. (C)<br><br>Profiad llwyddiannus o reoli newid (C) | Profiad o arwain a rheoli mewn mwy nag un Cyfnod / Ysgol uwchradd (Rh)<br><br>Profiad o reoli iechyd a diogelwch (Rh)<br><br>Profiad o amserlennu ysgol gyfan (Rh) |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Profiad sylweddol o feithrin perthnasoedd hynod effeithiol gydag ystod o randdeiliaid ysgol, gan gynnwys Llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach (Rh)<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o fframwaith a phroses arolygu Estyn (C) | |
| **SGILIAU** | Gallu amlwg i fynegi a chyfleu gweledigaeth glir o ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer yr ysgol (Rh)<br><br>Y gallu i arwain, rheoli ac ysgogi staff a disgyblion i gyrraedd safonau uchel (C)<br><br>Dealltwriaeth fanwl o ddata a'r gallu i'w drosi fel bod pawb yn ei ddeall, gan sicrhau defnydd ac effaith gynhyrchiol (C)<br><br>Profiad llwyddiannus o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. (C)<br><br>Y gallu i adeiladu rhwydwaith cryf o gydberthnasau a phartneriaethau cydweithredol gydag ysgolion eraill, proffesiynau addysg a sefydliadau allanol priodol (C)<br><br>Bod yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a lles holl aelodau cymuned yr ysgol (C)<br><br>Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gydag ystod o gynulleidfaoedd. (C)<br><br>Lefel uchel o sgiliau personol wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) (C)<br><br>Yn meddu ar sgiliau sefydliadol rhagorol a'r gallu i ddirprwyo'n effeithiol i greu effaith (C)<br><br>Dangos y lefel uchaf o broffesiynoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ar bob adeg (C) | |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **NODWEDDION PERSONOL** | Dangos cred yn athroniaeth, gwerthoedd a gweledigaethau cryf yr ysgol ac angerdd a phenderfyniad i wneud cyfraniad sylweddol at yr ysgol gyfan (Rh)<br><br>Bod yn ymwybodol o'i gryfderau ei hun a meysydd i'w datblygu, a gwrando, gweithredu a myfyrio'n adeiladol ar adborth adeiladol gan eraill (C)<br><br>Y gallu i fod yn wydn a chadarn o dan her a phwysau, gan barhau'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig. (C)<br><br>Dangos dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i ofynion y rôl a'r 'annisgwyl' (Rh)<br><br>Ymrwymiad clir i ddysgu proffesiynol parhaus i'w hun ac eraill (C)<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo lles holl aelodau cymuned yr ysgol (C)<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru (C)<br><br>Y gallu i reoli a datrys gwrthdaro yn effeithiol (C)<br><br>Y gallu i feddwl yn ddadansoddol ac yn greadigol a dangos blaengaredd wrth ddatrys problemau (C)<br><br>Y gallu i ddangos barn gadarn a chytbwys, pendantrwydd a hyblygrwydd (C)<br><br>Yn gallu ysbrydoli, herio, cymell a grymuso timau ac unigolion i gyflawni eu nodau (C)<br><br>Dangos dull gweithredu cadarnhaol, rhagweithiol gydag egni a brwdfrydedd, wedi'i adlewyrchu trwy lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol (C)<br><br>Dangos gonestrwydd, uniondeb, hygrededd, teyrngarwch a sensitifrwydd fel gweithiwr proffesiynol rhagorol, a deall yn llwyr yr angen am ymddiriedaeth a chyfrinachedd (C) | |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| GOFYNION ERAILL | Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a bydd proses sgrinio gynhwysfawr yn cael ei chynnal ar bob ymgeisydd. Bydd hyn yn cynnwys gwiriad manwl o’r rhestr wahardd gyda’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (GDG)<br><br>Yn deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfle cyfartal y Cyngor yn gadarnhaol | |

Bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a gall fod yn destun diwygiadau neu addasiadau yn dilyn ymgynghori â deiliad y swydd.  Nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o weithdrefnau a thasgau ond mae'n nodi prif ddisgwyliadau'r ysgol mewn perthynas â chyfrifoldebau a dyletswyddau proffesiynol deiliad y swydd.

Aelod o staff: ___________________________________________

Pennaeth: ___________________________________________

Dyddiad: ___________________________________________